Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru
Fforwm Partneriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru

Adroddiad Diweddaru: Mawrth 2010

Cyflwyniad

Mae'r diweddariad hwn o waith consortiwm yn rhoi trosolwg o'r cynnydd yn 2008-09, crynodeb o Gynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2009-2010, crynodeb o werthusiad data perfformiad ar lefel ysgol ac awdurdod lleol a thystiolaeth o ddatblygu aeddfedrwydd gwaith consortiwm. Mae pob awdurdod yn ymroddedig i ddatblygu gwaith consortiwm er mwyn galluogi blaengaredd ac effeithlonrwydd drwy roi'r grym i staff ac awdurdodau gydweithio a gwneud pethau'n wahanol. Mae'r gwaith yn ymgymryd ag egwyddorion diwygio ar dair lefel, lle mae pawb dan sylw yn rhannu nod cyffredin, sef gwella canlyniadau i bobl ifanc. Mae ffocws gwaith consortiwm ar wella ysgolion, a gwella safonau dysgwyr a lles yn fwy penodol.

1. Crynodeb o Adolygiad Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm 08-09

Adolygir a diwygir y Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm bob blwyddyn. Roedd y cynllun yn un uchelgeisiol gyda chanlyniadau amrywiol. O'r dechrau, cydnabuwyd y byddai rhai o'r canlyniadau yn rhai tymor canolig, ac y byddent yn cael eu cynnwys yng nghynllun y flwyddyn ganlynol hefyd. Mae'r adolygiad yn gwerthuso'r cyflawniadau, y cynnydd at gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt a'r gwersi a ddysgwyd.

1.1 Cyflawniad

- Dangosodd yr adolygiad y cyflawnwyd 52% o amcanion 2008-2009, gan greu effeithlonrwydd drwy waith consortiwm. Cyflawnir effeithlonrwydd drwy weithgareddau amrywiol sy'n ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod, a gallant fod yn ariannol neu beidio. Mae'r potensial ar gyfer arbed arian yn sylweddol o ystyried graddfa gyfredol y gwariant cyffredinol gan y chwe awdurdod, ond yn ogystal mae cyfle sylweddol am effeithlonrwydd nad yw'n ariannol (gwerth ychwanegol), ac i ddatblygu gweithio ar dair lefel.
- Roedd y gweithgareddau amrywiol a ychwanegodd werth gan gyflawni effeithlonrwydd yn cynnwys:-
  - cyflwyno gwell gwasanaethau - gwasanaethau mwy effeithiol sydd wedi'u hestyn ar gyfer adnoddau presennol, a fydd yn cael ei gyflawni ar unwaith oherwydd bydd yn adeiladu ar wasanaeth sydd eisoes yn gwella
  - swyddogaethau a rennir - swyddogaethau'r gwasanaethau y gellir eu rhannu ar draws y Consortiwm
  - swyddogaethau cydgefnogol - rhannu arfer a datblygu hawl cyffredin
  - arbedion maint-gwaith traws ffiniau mewn meysydd lle mae nifer y defnyddwyr a'r galw'n isel
  - cynyddu amser cynhyrchiol, llai o amser teithio i staff a llai o ddyblu datblygiad
- Mae'r cyflawniadau'n cynnwys
  - Rhaglen Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol ar y Cyd ar draws y chwe awdurdod ar gael ar-lein i staff ysgolion
  - Broceriaeth ranbarthol i gefnogaeth gwella ysgolion y cytunwyd arni
  - Sicrhau arian datblygu o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys APADGOS a CACC
  - Effeithlonrwydd ariannol ac fel arall mewn meysydd amrywiol gan gynnwys RhP, CALU, RHAGORI, Hyfforddiant RhYC, Athrawon Siartredig, ACA, Pontio, Datblygu Staff, Data
  - Cyflwyno RhP i benaethiaid a rhaglen asesu CALU yn llwyddiannus
  - Cyflwyno tendr yn llwyddiannus ar gyfer dau fodiwl Athrawon Siartredig
  - Datblygu deunyddiau crai i raglen arwain canol i athrawon
  - Datblygu Peilot y Marc Safon Cynhwysiad
  - Datblygiad ymagwedd beilot lwyddiannus i'r FfEY a'i rhoi ar waith
  - Cyflwyno rhaglen Hyfforddiant Anogwyr Dysgu'r Consortiwm
  - Ymatebion ar y cyd i fentrau amrywiol (FfEY, RHAGORI, RhP, CALU) a dogfennau polisi (Cynllunio Lleoliadau Ysgol, CYG, Derbyniadau, FfEY, Mesur 14/19, RHAGORI)
  - Cryfhau cysylltiadau â phartneriaethau ehangach, gan gynnwys PDdRDC (Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De-orllewin Cymru), Consortia Cymru, Continyou Cymru etc.
  - Cryfhau cysylltiadau ag APADGOS ac Estyn, gan gynnwys Data, CYG, FfEY, RhP, RHAGORI, Ysgolion yn eu Cymunedau, Cynhwysiad, 14/19
  - Mae adolygu cynllunio a threfniadau monitro rheolaidd yn effeithiol, gan gynnwys adolygiad strategol llawn

1.2 Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion dros ben

- Mae rhai meysydd gwaith sydd heb eu cyflawni oherwydd rhwystrau allanol, gan gynnwys oedi Polisi Cenedlaethol/arweiniad, na fedrwn eu rheoli e.e. cyhoeddi NSEIPS, VLE, alinio FfEY
- Mae methiant un neu ddau o Awdurdodau Lleol i fynychu a chyfranogi'n gyson wedi cael effaith negyddol ar allu grwpiau i wneud penderfyniadau pwysig o fewn yr amserlen a ragnodwyd/y cytunwyd arni.
- Cynnydd araf ar ddatblygu mewnbwn aelodau a phenaethiaid i fonitro/cynllunio strategol
- Datblygu GAP a broceriaeth wedi'i gyfyngu gan ddiffyg datblygu a chyflwyno hunanadolygiad, proses werthuso allanol a data perfformiad
- Gwaith broceriaeth a chronfa ddata SDC heb eu hehangu i feysydd o angen diffiniedig ac ymgynghorwyr allanol oherwydd yr angen am brosesau SA y cytunwyd arnynt, oedi wrth sefydlu data perfformiad a'r effaith ar gynigion trefniadau ailstrwythuro'r Awdurdod Lleol

1.3 Gwersi a Ddysgwyd

- Mae cadeiryddion a hwyluso effeithiol yn symud y gwaith yn ei flaen, gan gyflawni deilliannau
- Mae ymddiriedolaeth a dealltwriaeth proffesiynol yn datblygu - mae pobl yn llawer mwy parod i fod yn agored, i rannu arferion da ac i ddatrys problemau i eraill yn y grŵp.

2 Crynodeb o Gynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2009-2010

Datblygwyd Cynllun Strategol 2009-10 yn dilyn Adolygiad Strategol gwaith consortiwm ac wrth ymateb i ysgogwyr cenedlaethol a blaenoriaethau lleol. Mae gwerthuso perfformiad a hunanadolygu yn cefnogi'r blaenoriaethau yn y cynllun, a'r cynllun yn mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd a'r meysydd i'w datblygu ar draws y consortiwm. Mae pwyslais cynyddol ar dderbyn cyfrifoldeb i sicrhau bod pob canlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles dysgwyr ac yn arwain at ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod lleol i gyflawni effeithlonrwydd drwy weithio ar y cyd. Mae'r cynllun yn ddyheadol ac yn ceisio datblygu'r arferion effeithiol a'r arbenigedd sy'n bodoli ar draws y consortiwm mewn ysgolion a'r awdurdod lleol.

2.1 Blaenoriaethau Gwaith Consortiwm

1. Monitro, Herio ac Ymyrryd

Datblygu proses fonitro, herio ac ymyrryd gyson gyda'r bwriad o hyrwyddo gwella ysgolion yn barhaus ar draws y consortiwm, gan barchu a chyfoethogi trefniadau lleol

- 1.1 Darparu craidd cyffredin y cytunir arno, gan gynnwys data perfformiad ysgol i gynorthwyo i feirniadu'n gywir
- 1.2 Nodi'r arweiniad, yr egwyddorion a'r prosesau cyffredin i staff AALl ac ysgolion
- 1.3 Integreiddio yr arfer gorau a nodwyd mewn hunanwerthuso, a'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen beilot FfEY
- 1.4 Sicrhau alinio â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn
- 1.5 Sicrhau bod yr egwyddorion a'r prosesau cytunedig yn cael eu cymhwyso'n gyson (gan gynnwys amrywiadau ALl)
- 1.6 Darparu monitro effeithiol a her ar raddfa uchel
- 1.7 Sicrhau bod ysgolion sy'n achos pryder yn cael eu nodi'n gynnar
- 1.8 Sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyriad a chefnogaeth effeithiol
- 1.9 Hwyluso nodi arfer effeithiol mewn ALl ac ysgolion drwy ddeialog broffesiynol reolaidd

2. Arweinyddiaeth Systemau

Galluogi newid systemau ynghyd â diwygio ar dair lefel ac sy'n ateb gofynion addysg yn yr 21ain ganrif

- 2.1 Datblygu dealltwriaeth a rennir o arweinyddiaeth systemau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a LICC
- 2.2 Datblygu a rhoi ymagwedd ar waith i ddefnyddio arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad addysg effeithiol
- 2.3 Nodi sgiliau a galluoedd craidd arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol
- 2.4 Sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gael i arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol
- 2.5 Hyrwyddo meddwl a newid system mewn ysgolion, awdurdodau lleol a LICC mewn ardaloedd penodol cytunedig
- 2.6 Datblygu gweithio ar y cyd i gyfrannu at gynllunio effeithiol lleoliadau ysgolion a'r defnydd gorau o adnoddau cyfalaf

3. Cefnogi i wella ysgolion

Ehangu'r amrywiaeth o gefnogaeth a gwasanaethau cefnogi ehangach sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol, i alluogi gweithlu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddylanwadu'n well ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.

- 3.1 Nodi'r amrywiaeth o gefnogaeth a dysgu a fydd ar gael i ysgolion ac ALl
- 3.2 Diwallu anghenion datblygu proffesiynol a nodwyd i staff ysgolion ac ALl sy'n deillio o flaenoriaethau gwaith consortiwm – Monitro, Her ac Ymyriad, Cefnogaeth Ehangach, Arweinyddiaeth Systemau a Chyfeiriad Strategol a Llywodraethu
- 3.3 Sicrhau cefnogaeth cyfoedion a rhannu arferion proffesiynol drwy rwydweithiau a chymunedau dysgu proffesiynol
- 3.4 Datblygu sgiliau addysgeg gan gyfeirio at arferion ac ymchwil myfyriol
- 3.5 Hyrwyddo datblygu gwasanaethau a rennir i gynyddu cynhwysedd

4. Cyfeiriad Strategol a Llywodraethu

Datblygiad pellach trefniadau llywodraethu a rheoli sy'n sicrhau bod gwaith consortiwm yn cynyddu cynhwysedd awdurdodau lleol, yn ychwanegu gwerth gweithio effeithlon ac effeithiol, ac yn cyfrannu at wella deilliannau i blant a phobl ifanc.

4.1 Darparu cyfeiriad strategol i waith consortiwm (yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol), ac yn adolygu ac yn diwygio yn ôl y galw
4.2 Darparu isadeiledd a systemau cadarn i alluogi gwaith consortiwm effeithiol ac effeithlon
4.3 Sicrhau bod mentrau gwaith consortiwm yn destun craffu rheolaidd
4.4 Cael sicrwydd ansawdd effeithiol ar bob lefel
4.5 Bod trefniadau gwaith consortiwm yn alinio â'r themâu craidd ac elfennau allweddol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac yn eu hymgorffori
4.6 Cael llais unedig ar drefniadau polisi cenedlaethol ac ymgynghoriadau allweddol
4.7 Darparu fforwm i ddatblygu cysylltiadau gweithio gwell gyda LlCC a phartneriaid allweddol eraill
4.8 Sefydlu, monitro a chyflawni targedau perfformiad allweddol i wella cynhwysedd, defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a gwell safonau disgyblion

2.2 Ysgogwyr Cenedlaethol

Mae Ysgogwyr Cenedlaethol allweddol gwaith consortiwm yr un peth â rhai awdurdodau unigol. Maen nhw'n cynnwys y Ddeddf Plant, y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), Fframwaith Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru, Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY), Creu'r Cysylltiadau a Fframwaith Arolygu Cyffredin Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Blaenoriaeth allweddol yw mewnosod y FfEY. Bydd Cynllun Gwaith Consortiwm 2009-10 yn cefnogi'r broses o fewnosod y FfEY gan gynnwys cyfrifoldebau'r Model Gwella Ysgolion Cenedlaethol a amlinellir yn 'Datblygu System Genedlaethol ar gyfer Addysg yng Nghymru drwy Fewnosod y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion', cytundeb rhwng LlCC a CLILC.

3 Crynodeb o Werthusiad Data Perfformiad, Lefel Ysgol a Lefel ALl

Fel rhan o brosiect Creu'r Cysylltiadau yn 2006-07, cynhaliwyd ymchwil amrywiol yn canolbwyntio ar berfformiad disgyblion, yr ysgol a'r awdurdod lleol, meysydd gwella posib a gweithio mewn partneriaeth. Bellach, mae perfformiad o 2006-07 tan 2009 wedi'i adolygu, a chymerwyd y cyfle i ailadolygu ac ychwanegu at gasgliadau blaenorol. Mae canlyniadau'r ymchwil yn tanategu ac yn cyfeirio Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2009-10. Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd yn canolbwyntio ar:

1. Perfformiad disgyblion a'r ysgol: 1.1 Arolygon Ysgol Estyn 2005-2009 ac 1.2 Perfformiad Ysgolion Tueddiadau Data Cyfnod Allweddol 1-4
2. Perfformiad yr Awdurdod Lleol: 2.1 Archwiliadau AALl Estyn 2005-9 a 2.2 Arolwg Canfyddiad y Comisiwn Archwilio 2009

3.1 Crynodeb o'r Canfyddiadau

1. Perfformiad disgyblion a'r ysgol

1.1 Adolygiad o Arolygon Ysgol Estyn 2005-2009

Ysgolion Cynradd

- Roedd canran ysgolion SWAMWAC a dderbyniodd y radd uchaf (da gyda nodweddion eithriadol) yn is na chanran Cymru gyfan i bob cwestiwn allweddol.
- Mae amrywiaeth eang yn y graddau ar draws SWAMWAC, ond mae nodweddion eithriadol wedi'u cuddio o fewn ffigur 'cyfartalog' pob cwestiwn. Cafwyd y lleiaf o ddiffygion yn CA4
- Y cwestiynau a raddiwyd isaf oedd Cwestiwn 1: Pa mor dda y mae'r dysgwyr yn cyflawni? a Chwestiwn 6: Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthuso ac yn gwella ansawdd a safonau?

Ysgolion Uwchradd

- Mae ysgolion uwchradd SWAMWAC yn dilyn patrwm tebyg i'r ffigurau Cymru gyfan, ond yn ennill graddau uwch mewn tri o'r saith maes, sef Cwestiwn 1: 'Pa mor dda y mae'r dysgwyr yn cyflawni?', Cwestiwn 4: 'Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddisgyblion?' (hwn oedd y maes â'r lleiaf o ddiffygion) a Chwestiwn 7: 'Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?'
- Mae ysgolion uwchradd SWAMWAC yn dilyn patrwm tebyg i'r ffigurau Cymru gyfan, heb beri pryder yng Nghwestiwn 3: 'Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn diwallu anghenion dysgwyr a'r gymuned yn ehangach?' (Mae hwn yn welliant i'r safle a nodwyd yn ymchwil Prosiect Creu'r Cysylltiadau) a Chwestiwn 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?
- Y cwestiynau gyda phryderon yw Cwestiwn 2: Addysgu, Hyfforddi ac Asesu (doedd dim pryderon yn y maes hwn yn ymchwil Prosiect Creu'r Cysylltiadau) a Chwestiwn 6: Rheoli Gwerthuso a Gwella. (Mae'r sefyllfa hon yn debyg i'r canlyniadau a welwyd ym Mhrosiect Creu'r Cysylltiadau)

1.2 Tueddiadau Data ar Berfformiad Ysgolion Cyfnod Allweddol 1-4

Y pwynt cyfeirio i gymharu data yw canlyniad cyfartalog Cymru gyfan. Nid yw hyn yn rhoi'r darlun cyfan, am nad yw'n ystyried Prydau Ysgol am Ddim, neu ddata cyd-destun sy'n caniatáu mesur sy'n ychwanegu gwerth i gyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Fodd bynnag, mae'n darparu rhai dangosyddion defnyddiol. Ar gyfer ymchwil Creu'r Cysylltiadau, gwnaeth ymgynghorydd a gomisiynwyd yn allanol o Ymddiriedolaeth Teulu Fischer ddarparu dadansoddiad data perfformiad sy'n ychwanegu gwerth manwl i awdurdodau lleol SWAMWAC ar draws cyfnod allweddol dau i bedwar. Ni fu'n bosib atgynhyrchu'r dadansoddiad hwn ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae'r gwaith yn parhau.

Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae ffigurau DPC yn cynyddu yn CA2 a CA3. Nid yw ffigurau CA1 wedi newid. Nid oedd ffigurau CA4 ar gael ar ddyddiad y dadansoddi, ac ychwanegir hwy'n ddiweddarach.

2. Perfformiad yr Awdurdod Lleol

2 Arolygiadau Awdurdodau Lleol Estyn

Gwnaeth dadansoddiad yr arolygiadau awdurdodau lleol ystyried pob arolygiad ALl ar draws Cymru o 2004 tan 2009. Roedd yn cynnwys elfennau o Reoli Strategol, Cefnogi i Wella Ysgolion, Hybu Cynhwysiad a Lles Cymdeithasol, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion a Gwasanaethau Cefnogi. Ni arolygwyd pob elfen ym mhob ALl, ond bu lefel sylweddol o weithgaredd ym mhob ALl, gan ganiatáu i ddadansoddiad defnyddiol gael ei gynnal.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Yn gyffredinol, mae gan awdurdodau SWAMWAC yr un dyfarniadau neu well na Chymru gyfan yn y ddau faes a arolygwyd; perfformiad cyfredol a rhagolygon gwelliant, gyda pherfformiad da gan un neu fwy o awdurdodau SWAMWAC ym mhob maes allweddol.
- Yr eithriad i hyn yw Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion, lle roedd dyfarniadau perfformiad presennol ar y cyfan yn is na Chymru gyfan, gydag amrywiaeth sylweddol ar draws yr awdurdodau, er bod rhagolygon gwelliant yn gyffredinol dda. Roedd y maes hwn hefyd yn faes gwelliant sylweddol i'r ddau awdurdod lleol yn y dadansoddiad blaenorol. Mae hwn yn faes allweddol at sylw'r awdurdodau, ac mae cyfleoedd clir i gydweithio.
- I bob ALl SWAMWAC, caiff y rhagolygon gwelliant eu graddio yr un peth neu'n uwch na'r dyfarniad ar berfformiad.
- Mae lefel uchel o gysondeb dyfarniadau ar draws SWAMWAC am Reolaeth Strategol a Chefnogi i Wella Ysgolion lle nad oes diffygion pwysig yn unrhyw un o'r ALl.

2.1 Arolwg Canfyddiadau Ysgol 2009

Cynhelir yr arolwg eilflwydd hwn gan y Comisiwn Archwilio, ac mae'n gofyn i ysgolion yng Nghymru a Lloegr am eu barn am y gefnogaeth a dderbynnir gan eu cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol i'w disgyblion.

Disgwylir i'r canlyniadau gael eu defnyddio gan gynghorau at ddibenion hunanwerthuso, ac fe'u defnyddir gan y Comisiwn Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ac arolygiaethau eraill fel cydran allweddol o arolygiadau ALl ac Adolygiadau ar y Cyd. Nid oedd pob awdurdod wedi cymryd rhan yn yr arolwg eilflwydd hwn ar gyfer adroddiad Creu'r Cysylltiadau, ond yn 2009, cymerodd bob awdurdod SWAMWAC ran. Mae'r cwestiynau'n casglu data o ysgolion mewn adrannau tebyg i agweddau a arolygir gan Estyn.

- Mae'r ymatebion o'r arolwg yn dangos ymatebion llai cyffredin ar draws awdurdodau i ganlyniadau'r adroddiad blaenorol o 2005, gyda phob datganiad ar draws yr arolwg yn cynnwys ymatebion yn y chwarteli uchaf ac isaf.
- Mae'r arolwg yn mesur **canfyddiad** y gefnogaeth a ddarperir gan yr ALl, ac nid safonau gwella ysgolion neu ADY – felly gallai'r canfyddiadau fod yn wahanol i ganfyddiadau arolygiadau Estyn.
- Nid yw'r ymatebion i'r arolwg canfyddiadau fel arfer yn cydberthyn i ganlyniadau arolygiad Estyn. Er enghraifft, yn arolygiadau diweddar Estyn o Gefnogi i Wella Ysgolion, derbyniodd bob awdurdod lleol SWAMWAC (ar wahân i 1) 2 neu well am berfformiad, a derbyniodd bob un o'r chwech 2 neu well am ragolygon gwelliant. Eto mynegwyd anfodlonrwydd sylweddol yn erbyn Cwestiynau B3 – effeithiolrwydd wrth herio ysgolion, B9 a B10 – cefnogi cyrhaeddiad yn CA3 a CA4, B17 - darparu gwybodaeth ariannol i gefnogi gwella ysgolion a B18 – defnyddio data perfformiad disgyblion i gefnogi gwella ysgolion.

4. Tystiolaeth o Ddatblygu Gwaith Consortiwm Aeddfedrwydd

- Fel rhan o'r prosiect Creu'r Cysylltiadau, dadansoddwyd gwaith y grwpiau amrywiol ar draws awdurdodau SWAMWAC wrth nodi a chynllunio, ar lefel weithredol, meysydd allweddol gwaith consortiwm angenrheidiol ac ymarferol i wella cyflwyno gwasanaethau, ac roedd y deilliannau'n sylfaen i'r Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm cyntaf. Nodwyd y fethodoleg a'r gweithdrefnau llywodraethu i gydweithio, cytunwyd arnynt a rhoddwyd hwy ar waith hefyd.
- Am dair blynedd ers 2006, mae SWAMWAC wedi gweithredu ar y sylfaen honno y cytunwyd arni, yn ôl Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm, a adolygir ac a ddiweddarir yn flynyddol. Ystyriwyd yn briodol cyflawni adolygiad mwy ffurfiol o drefniadau gwaith consortiwm yn 2009-10, gan ddiweddaru'r ymchwil a gynhaliwyd yn wreiddiol o dan y prosiect Creu'r Cysylltiadau.
- Rhoddwyd proses hunan adolygu ffurfiol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys holiadur hunanwerthuso ffurfiol, yn cynnwys cwestiynau amrywiol, a thrafodaeth strwythuredig, oll wedi'u dylunio i gael ymatebion ar y meysydd gwaith a'r canlyniadau amrywiol oedd yn dargedau yng Nghynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2008-09, ac ar ddulliau gweithio cyfredol.
- Roedd y data a gasglwyd yn destun dadansoddiad meintiol ac ansoddol, gan nodi meysydd arfer da, a meysydd i'w gwella. Mae gwybodaeth a gasglwyd yn y dadansoddiadau yn diweddaru ac yn cefnogi blaenoriaethau Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2009-10.
- Derbyniwyd ymatebion gan 60% o'r Grwpiau Gweithredol, gan gynnwys y Grŵp Strategol a Grŵp y Penaethiaid, gyda chyfanswm o 63 o aelodau grŵp yn cwblhau'r holiadur ac yn cymryd rhan yn y trafodaethau.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Yn gyffredinol, doedd dim llawer yn peri syndod yn nadansoddiad ystadegol yr ymatebion. Yn gyffredinol, mae aelodau grŵp yn fwy ymwybodol o'r gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu meysydd gwaith eu hunain.
- Nododd nifer o ymatebion fod lle i wella cyfathrebu ehangach am ehangder a llwyddiant mentrau gweithio'r consortiwm. Er enghraifft, er bod mwyafrif yn cefnogi'r syniad bod gweithio ar y cyd yn darparu cyfleodd ac effeithlonrwydd datblygu deunyddiau hyfforddi ar y cyd a digwyddiadau a ddatblygir ar y cyd, nododd lleiafrif sylweddol fod lle i ehangu'r math hwn o waith datblygu, a bod cyfathrebu a rhannu ehangach o'r gwaith datblygu yn angenrheidiol. Hefyd, doedd lleiafrif sylweddol ddim yn ymwybodol o'r mentrau.
- Yn galonogol, roedd y cwestiynau oedd yn ceisio nodi lefel y cyfathrebu am waith consortiwm o fewn awdurdodau lleol yn nodi lefel dda o drafod cyson am waith consortiwm mewn cyfarfodydd tîm.
- Er bod mwyafrif yn deall diben gwaith consortiwm ac yn gallu nodi manteision, roedd diffyg gwybodaeth o strwythurau a systemau llywodraethu'r consortiwm ac o effaith gwaith consortiwm ar effeithlonrwydd. Mae hwn yn faes a drafodir yng Nghynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2009-10.
- Mae tystiolaeth o lefel dda o wybodaeth am ddefnydd data perfformiad i ddiweddaru dadansoddi cryfderau a gwendidau ysgolion o fewn yr awdurdod cartref, ond lefel is o wybodaeth o gymharu perfformiad ysgolion/disgyblion ar draws awdurdodau. Eto, trafodir hyn yng Nghynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2009-10.
- Roedd y mwyafrif yn ymwybodol o'r ymagwedd consortiwm, ac yn gefnogol ohoni, i ysgolion gael mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol, er nad oedd lleiafrif sylweddol yn gwybod a oedd staff yn cael eu hannog i fynychu'r rhaglenni. Gallai hyn nodi problem gyfathrebu, ond nodwyd hefyd y gallai hon fod yn broblem ariannu.
- Nododd y data ansoddol o'r dadansoddiadau bod aelodau grŵp yn gyffredinol hapus gyda'r trefniadau gweinyddol a chyfarfod cyfredol, ond cafwyd awgrymiadau am welliannau y gweithredir arnynt lle bynnag y bo modd.
- Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod gwerth i waith consortiwm ac yn gallu nodi achlysuron lle roedd hyn wedi helpu eu gwaith, ond doedd dim llawer o dystiolaeth fanwl ar gael. Gwerthfawrogwyd y gallu i fynd i'r afael â chysondeb ymarferol.
- Nododd y trafodaethau grŵp nifer o gynigion am feysydd datblygu gwaith consortiwm, gan gynnwys arweinyddiaeth systemau ac ehangu i gynnwys elfennau o'r agenda plant ehangach.

Gwerthusiad allanol

- Yn ogystal â'r hunanadolygiad, comisiynwyd gwerthusiad allanol, ac arhosir am yr adroddiad ar hyn o bryd.

Casgliad

Rydym yn gwneud cynnydd da ar ddeilliannau gwaith consortiwm ac wrth ddatblygu'r ffordd rydym yn gweithio. Mae gennym ddarlun clir o'n sefyllfa bresennol a ble dylem fynd ar sail tystiolaeth. Credwn ein bod mewn lle da i ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod ac i gefnogi pob awdurdod i greu effeithlonrwydd drwy waith consortiwm. Nid yw gwaith consortiwm yn ychwanegu at waith pob awdurdod i gefnogi gwella ysgolion, ond mae'n hanfodol i gyflawni diben busnes a moesol craidd gwella deilliannau i bob dysgwr.

Dogfennau Ategol ar Gael

1	Adolygiad o Gynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2008-2009	Hydref 2009	SWAMWAC
2	Crynodeb o Gyflawniadau Gwaith Consortiwm 2008-09	Tachwedd 2009	SWAMWAC
3	Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm 2009-10	Tachwedd 2010	SWAMWAC
4	Ymchwil Perfformiad Gwaith Consortiwm 2009-10	Chwefror 2010	SWAMWAC
5	Hunanwerthuso Gwaith Consortiwm	Chwefror 2010	SWAMWAC
6	Datblygu System Genedlaethol ar gyfer Addysg yng Nghymru Drwy Fewnosod y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	Chwefror 2010	LlCC